A chan dosturio estynnodd ef ei law a chyffwrdd ag ef a dweud wrtho, 'Yr wyf yn mynnu, glanhaer di.' **(Marc 1:41)**

Dyma hanes hyfryd am yr Arglwydd Iesu yn torri cyfraith seremoniol er mwyn dangos grym ei ras i iacháu'r gwahanglwyf oedd y tu hwnt i allu meddygol, a rhoi arwydd o'i ras i iacháu pechod, a hynny tu hwnt i allu dynol hefyd.

Y cyflwr

Mae'n debyg mai'r gwahanglwyf oedd pawb yn ei ofni fwyaf yn amser y Testament Newydd. Roedd tri math ohono: roedd un math yn amlygu talpiau bach ar foch, y trwyn neu'r talcen, a hynny ar ôl poenau yn y cymalau a smotiau mawr ar y croen. Roedd wyneb y person yn newid i fod yn annynol, a byddai cornwydydd yn ymddangos dros y corff i gyd. Mewn tua naw mlynedd byddai'r person yn marw.

Roedd math arall yn cychwyn mewn ffordd debyg i'r math cyntaf, ond yn effeithio ar y nerfau hefyd. Canlyniad hyn fyddai colli teimlad mewn rhannau o'r corff. Gall hyn achosi damweiniau drwg, diarwybod. Daw'r dwylo fel crafangau, a daw smotiau a phothelli hefyd. Yna bydd y claf yn colli bysedd a bodiau traed. Gall y math yma bara am ugain neu ddeng mlynedd ar hugain cyn i'r claf farw.

Mae'r trydydd math – y mwyaf cyffredin - yn gymysgedd o'r ddau fath cyntaf.

Mae'n bosib hefyd fod y term 'gwahanglwyf' yn gallu disgrifio afiechydon eraill ar y croen.

I ni heddiw, pan mae modd iacháu'r gwahanglwyf yn eithaf hawdd gyda'r feddyginiaeth briodol, mae'r salwch yn nyddiau Iesu yn cymharu â chancr neu AIDS.

Y cais

Wrth i'r claf nesáu at Iesu, roedd yn torri'r gyfraith seremoniol yn Exodus 13. Yn ôl y bennod yna, roedd rhaid i'r claf aros tu allan i'r gwersyll, neu'r pentref. Byddai'n rhaid iddo wisgo dillad wedi eu rhwygo, cadw'i ben heb orchudd, gorchuddio ei wefus uchaf, a galw allan 'aflan, aflan,' wrth i rywun iach ddod yn agos ato.

Mae'r claf yma yn mentro at Iesu ac yn plygu wrth ei draed. Mae'n rhaid ei fod wedi clywed am yr Arglwydd, neu efallai wedi ei weld o bell yn iacháu eraill. Mae ei gais yn dangos ei fod yn credu yng ngallu Crist i iacháu, ond nid

yw'n siŵr am ei ewyllys i'w iacháu ef. Dyma'r hanes a sbardunodd logo Cymdeithas y Gwahangleifion.

Y canlyniad

Mae ymateb yr Arglwydd Iesu yn wefreiddiol. Mae yntau hefyd yn torri'r gyfraith seremonïol wrth gyffwrdd â'r gwahanglwyf. Wrth gwrs, nid yw'n gwneud hynny er mwyn amharchu'r gyfraith, ond fel arwydd i'r dyn gwahanglwyfus o'i dosturi a'i awydd i'w iacháu.

Gallwn ddychmygu gwerth yr un cyffyrddiad yma i berson oedd yn gorfod osgoi pawb, boed yn deulu, ffrindiau neu gydnabod.

"*Pan fwy'n teimlo ôl dy law*
ar greithiau mywyd i,
fe dardd y gân o dan fy mron:
rwy'n dy garu, Iôr."

Alla i ddim dychmygu'r unigrwydd o beidio â chael cyffwrdd na chofleidio anwyliaid am amser hir. Roedd y Meddyg mawr yn gwybod sut i ymwneud â'r claf yn ogystal â sut i'w wella.

Yna daw'r gair awdurdodol: **"glanhaer di/bydd lân."** Mae'r gair yn ein hatgoffa o orchymyn Duw yn y Creu – **"Bydded goleuni" (**Gen.1.3). Trwy air Duw y crewyd y byd, a thrwy air Crist daeth adferiad i'r gwahanglwyfus na allai neb arall ei wella.

Y Cymhwysiad

Beth mae'r hanes yma yn ei ddweud wrthym? Mae'n dweud wrthym y gallwn fynd at Iesu, beth bynnag ein cyflwr. Efallai fod meddygon yn dweud nad oes gobaith, ond gallwn nesáu at Grist trwy ffydd i geisio iachâd.

Hefyd mae'n dweud wrthym sut Waredwr yw Iesu. Mae'n dangos bod Duw wedi dod i'r byd i gyffwrdd â phechaduriaid aflan. Mae'r gwhanglwyf yn ddarlun o bechod sydd yn ein gwahanu oddi wrth ein Duw ac oddi wrth ei deulu. Mae aros yn ein pechod heb Grist yn arwain i fod ar wahân iddo am byth, a dyna yw uffern.

Ond yn ei gariad mae Duw wedi dod yng Nghrist i gyffwrdd â ni yn ein pechod. Roedd y cyffyrddiad hwn yn dangos fod Iesu yn fodlon uniaethu â'r dyn gwahanglwyfus, ond hefyd ei fod yn cymryd y gwahanglwyf oddi wrtho. Mae hyn yn arwydd o'r ffaith fod Crist wedi dod i'r byd i gymryd ein pechod arno fe'i hunan, a dyna wnaeth ar y groes.

Mae hyn yn golygu y gallwn ddod at yr Arglwydd yn ein pechod erchyll a gofyn am lanhad. Os oedd yn mynnu glanhau'r truan yma, pam na fydd yn mynnu ein glanhau ni?